**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 9 Hydref 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd Wendy G Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Sefydliadau â Chynrychiolwyr**

| | |
|---|---|
| Moawia Bin-Sufyan | Care after Combat |
| Ruth Birch | Fighting With Pride |
| Pat Dunmore | Cyngor ar Bopeth |
| Asgell-gomander Phil Flower | Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe |
| Debbie Hamer | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Calvin Hughes | CEF Abertawe |
| Phil Jones | SO Fit |
| Julian North | Help for Heroes |
| Rob Salmon | ReAct |
| Tom Sloane | Rygbi'r Gweilch |
| Paul Smith | Veterans RV |
| Tony Strutt | V-Aid |
| Stephen Sullivan | Adferiad |
| Neil Tomlin | Cronfa Les yr Awyrlu Brenhinol |
| Capten Huw Williams | Sgwadron 157 |
| Victoria Williams | GIG Cymru i Gyn-filwyr |
| Simon Winspear | CGGA |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| David Price Deer | Rheolwr Digwyddiadau Arbennig |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Natalie McCombe | Local Area Coordinator |
| Finola Pickwell | Regional Armed Forces Covenant Officer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Louise Fleet, Steve Fry, Rob Govier a/ac Steve Spill

---

## 41 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Dim.

## 42 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2023 fel cofnod cywir.

## 43 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.

Amlinellodd Finola Pickwell ei bod wedi bod yn y swydd am tua mis, a nododd ei bod yn edrych ymlaen at ddatblygu perthnasoedd a chysylltiadau â holl Hyrwyddwyr y Lluoedd Arfog, swyddogion a grwpiau a sefydliadau amrywiol yn yr ardal.

Nododd ei bod ar gael am gymorth, cyngor a chymorth lle bo angen.

## 44 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.

Adroddodd y Capten Huw Williams fod y Cyfarfod Cymorth Milwrol diweddaraf wedi'i gynnal ddechrau mis Medi 2023 lle buont yn edrych ar ddigwyddiadau sydd ar ddod, gan gynnwys Taith Gerdded Gŵyr Dug Caeredin ar 9 Medi. Roedd dewis o naill ai taith gerdded 22 milltir o hyd (dechrau yn Rhosili) neu daith gerdded 10 milltir o hyd (dechrau ym Mhorth Einon) o gwmpas arfordir mwyaf golygfaol yn y byd – cymerodd dros 180 o gyfranogwyr ran a chodwyd dros £70,000 i elusen. Roedd yn ddiwrnod gwych a diolchodd i luoedd y cadetiaid am eu cymorth ar y diwrnod.

Nododd fod sefydliad sifil o'r Gymuned Affricanaidd wedi bod yn bresennol mewn diwrnod mewnwelediad yn y Grange ar 4 Medi, roedd hwn yn ddigwyddiad a gafodd dderbyniad da.

Amlinellodd fod y gwaith cynllunio ar gyfer Dydd y Cofio yn datblygu'n gyflym a bydd Phil Flower yn diweddaru'r panel yn llawn.

Ailadroddodd ei ddatganiad yn y cyfarfod blaenorol fod Catrawd 157, Sgwadron 223 wedi darparu cymorth i lawer o asiantaethau yn yr ardal leol, ac roedd yn dda bod gofyn i ni gefnogi digwyddiadau fel diwrnodau agored a darparu sesiynau gweithgareddau ar gyfer grwpiau lleol.

Dywedodd unwaith eto nad ydym yn 'dewis a dethol' pa sefydliadau neu asiantaethau yr ydym yn eu cefnogi ond yn ceisio cynorthwyo'r rheini a ofynnodd am ein help a'n cymorth pryd bynnag y bo modd. Mae sibrydion am elusennau'r cyn-filwyr, bod gen i fy 'ffefrynnau' ond nid yw hyn yn wir.

Amlinellodd ymhellach fod y cynllunio wedi dechrau ar gyfer wythnos y Lluoedd Arfog y flwyddyn nesaf gan mai Abertawe fydd yn cynnal yr wythnos/diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

Bydd wythnos y Lluoedd Arfog yn cael ei haddasu ychydig i adlewyrchu ac ategu penwythnos y Sioe Awyr, a gynhelir ar 6 a 7 Gorffennaf.

Amlinellodd ei fod yn gobeithio y bydd yr arddangosfeydd a phersonél y lluoedd arfog ar y ddaear hyd yn oed yn well nag mewn blynyddoedd blaenorol. Dylai

unrhyw aelodau o'r panel sydd â syniadau ar gyfer gwella'r digwyddiad neu ychwanegu arddangosfeydd/stondinau ychwanegol etc., eu hanfon ato i'w hystyried.

Amlinellodd Tom Sloane (tîm rygbi'r Gweilch) y byddai'r Gweilch yn cynnal eu "Diwrnod y Lluoedd Arfog " yng ngêm y Gweilch yn erbyn Glasgow ar 11 Tachwedd (y gic gyntaf am 5.15pm). Nododd ei fod wedi bod mewn cysylltiad â grwpiau amrywiol eisoes, gan gynnwys y Môr-filwyr a oedd wedi cadarnhau y byddent yn bresennol ac yn gobeithio adeiladu ar lwyddiant gêm a digwyddiad y llynedd. Dylai unrhyw grwpiau neu sefydliadau sy'n dymuno bod yn bresennol a chymryd rhan gysylltu ag ef.

Rhoddodd Phil Flower ddiweddariad manwl ar y nifer fawr o ddigwyddiadau a gynhelir yn ystod cyfnod Dydd y Cofio, gan gynnwys ailgyflwyno Gŵyl y Cofio yn Neuadd Brangwyn ar 11 Tachwedd. Bydd tocynnau am ddim ac ar gael yn fuan.

Amlinellodd y newidiadau i "ddigwyddiad lansio" yr Apêl Pabïau a fydd hefyd yn cael ei gynnal yn Neuadd Brangwyn ar 19 Hydref.

Maent yn dal i chwilio am wirfoddolwyr i helpu i gasglu o gwmpas y ddinas ar gyfer yr Apêl Pabïau.

Nododd David Price Deer, yn anffodus, y bydd y digwyddiad ‘Distawrwydd yn y Sgwâr’ yn cael ei gynnal bellter byr i ffwrdd yn St David's Place oherwydd gwaith yn Sgwâr y Castell.

Amlinellodd Finola Pickwell y bydd Cyngerdd Cofio hefyd yn cael ei gynnal yn Theatr y Dywysoges Frenhinol ym Mhort Talbot ar 27 Hydref, gyda digwyddiad lansio gwerthiant pabïau yng nghanolfan siopa Aberafan ar 28 Hydref gyda stondinau ar gael ar gyfer grwpiau/sefydliadau os oes angen.

Bydd rhestr lawn o ddigwyddiadau yn cael eu dosbarthu i aelodau'r panel ar ôl y cyfarfod.

**45 Fforwm y Lluoedd Arfog Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.**

Adroddodd Victoria Williams fod 26 o bobl wedi cael eu hatgyfeirio i wasanaeth GIG Cymru i Gyn-filwyr dros y 3 mis diwethaf, mae 16 ohonynt wedi dewis defnyddio'r gwasanaeth ac mae 16 ohonynt wedi cael eu hasesu eisoes.

Cyflawnwyd hyn drwy benodi'r therapydd newydd sydd wedi galluogi'r amseroedd aros ar gyfer asesu gael eu lleihau i wythnos, sydd i'w groesawu'n fawr.

Amlinellodd fod adroddiad blynyddol y gwasanaeth wedi ei gyhoeddi ac mae hyn yn cadarnhau mai ni yw'r Bwrdd Iechyd prysuraf yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau i gyn-filwyr.

Bydd copi o'r adroddiad blynyddol yn cael ei ddosbarthu yn dilyn y cyfarfod.

Amlinellodd hefyd, gyda'r aelod newydd o staff yn ei le, ei bod ar gael eto i roi sgyrsiau ac ymweld ag unrhyw grwpiau/sefydliadau i'w diweddaru am waith ei huned

**46 Cefnogi Disgyblion o Deuluoedd Gwasanaeth.**

Nid oedd y Swyddog yn bresennol, ni roddwyd diweddariad.

**47 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.**

CEF Abertawe

Dywedodd Calvin Hughes fod y carchar wedi bod yn gweithio ar ddatblygu arddangosfa yn ymwneud â Dydd y Cofio i'w gosod y tu allan i'r adeilad.

Mae hyn wedi cynnwys cyn-filwyr yn creu milwr pren mawr, mainc, a thros 500 o babïau, a bydd pob un ohonynt yn cael eu harddangos, a dylai fod yn deyrnged weledol addas.

Nododd Victoria Williams ei bod wedi mynd i sesiwn drafod ac ioga yn y carchar yn ddiweddar, ac roedd y digwyddiad wedi bod yn rhagorol ac i'w ganmol.

Cydlynydd Ardal Leol/Beicwyr y Lluoedd Arfog

Amlinellodd Natalie McCombe ei bod wedi symud i ardal Gellifedw/Llansamlet yn ei rôl fel Cydlynydd Ardal Leol. Mae 1 Cydlynydd Ardal Leol ym mhob un o'r wardiau etholiadol yn y ddinas ac maent yno i helpu'r cyhoedd a'r gymuned yn gyffredinol.

Amlinellodd ei bod hi hefyd yn aelod o'r Boyo's, sef Cangen Rhanbarth De-orllewin Cymru o Feicwyr y Lluoedd Arfog. Maent yn grŵp codi arian a gall grwpiau lleol wneud cais am grantiau gan y sefydliad.

Nododd ei bod hi ac eraill o'r grŵp wedi cymryd rhan yn ddiweddar yn y digwyddiad "reidio i'r wal" a ddaeth i ben yn y Goedardd Goffa Genedlaethol.

Cymdeithas y Llynges Frenhinol – Cangen Abertawe

Cyfeiriodd Natalie hefyd at sefydlu'r grŵp uchod sydd bellach â mwy na 40 o aelodau gan gynnwys hi ei hun. Bydd y grŵp yn gweithio tuag at ymuno â'r cyfamod yn y flwyddyn newydd.

Veterans RV/So Fit

Amlinellodd Paul Smith fod y grŵp syrffio a nofio yn parhau i dyfu ac mae croeso i bawb. Efallai y bydd angen cyllid ychwanegol ar gyfer cyfarpar yn y dyfodol.

Nododd Phil Jones eu bod bellach wedi cyflwyno sesiynau iechyd meddwl i blant milwyr mewn 15 o ysgolion Abertawe, gyda mwy ar y gweill.

Mannau Cwrdd

Amlinellodd aelodau'r grŵp fod ystafelloedd cyfarfod ar gael i grwpiau/sefydliadau eu defnyddio am ddim mewn gorsafoedd tân lleol a siopau Tesco Extra.

<u>Materion Tai</u>
Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn derbyn diweddariad llawn gan swyddog tai cyngor ar y broses a'r meini prawf y mae'n rhaid eu cyflawni i fynd ar y rhestr dai.

Nododd ei bod bob amser wedi trosglwyddo unrhyw atgyfeiriadau y mae'n eu derbyn gan gyn-filwyr ac yn gwneud ei gorau glas i helpu, ond yn anffodus ni ellir gwarantu llety i gyn-filwyr bob amser oherwydd y meini prawf rheoleiddio llym.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.53 pm

**Cadeirydd**